Cenn@d

MAWRTH 25 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 265

# Lansio *Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr



Aled Davies, Lis Williams, Gwen Emyr, Nathan Munday a John Aaron yn lansiad Caerdydd



Aled Davies, Ann Davies, Gwen Emyr, John Emyr, Carys Davies a Hywel Meredydd Davies yn y lansiad ym Myd Mary Jones

Yn ddiweddar cyhoeddwyd *Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr – cyfrol sy'n olrhain profiadau gwragedd yr adfywiad efengylaidd yng Nghymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Cynhaliwyd y cyfarfod lansio cyntaf ym Myd Mary Jones, ger y Bala, lle cyflwynwyd copi i'r awdur gan Aled Davies, cyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair. Trefnwyd y cyfarfod gan Ann Davies o Siop Gristnogol Manna yn y dref, ac agorwyd y cyfarfod gydag eitemau defosiynol gan John Emyr. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd darlleniadau a gair o werthfawrogiad gan Carys a Hywel Meredydd, sef brawd Gwen. Braf oedd cael cyfle i rannu storïau ac atgofion yn y caffi wedi'r cyfarfod lansio yn yr eglwys.

Yna, wythnos yn ddiweddarach, cafwyd lansiad arall yng Nghaerdydd, a hynny yn Siop Lyfrau Gristnogol Eglwys yr Heath yn yr Eglwys Newydd. Braf oedd gweld yr ystafell gyfarfod yno yn orlawn, ac eto cafwyd cyfraniadau gan John Aaron, Nathan Munday, gweinidog yr eglwys, a Lis, ffrind i Gwen.

Ceir yn y gyfrol lu o bortreadau a chyfweliadau â merched a wnaeth gyfraniad nodedig i fywyd ysbrydol Cymru, ac mae ein dyled i Gwen am gasglu'r hanesion yma ynghyd.

Dywedodd Gwen: 'A ninnau heddiw yn cael cyfle fel cymdeithas i fawrygu cyfraniad merched, credaf fod y merched a gynrychiolir yn y gyfrol hon yn teilyngu eu lle hwythau yn ein horiel o ferched dewr. Yn wir, mae'r lleisiau yn y cyfweliadau yn f'atgoffa o'r darlun a gawn o gyfraniad merched, yn ogystal â dynion, yn yr Eglwys Fore. Cristnogion oedd yn caru'r Gwaredwr oedden nhw, pobl yr ail filltir a chariad y brodyr a'r chwiorydd at ei gilydd yn disgleirio, nes peri awydd ynof, ymhen blynyddoedd, i'w cyf-weld.

'Ymgais sydd yma i gasglu ynghyd a chofnodi'r dystiolaeth wreiddiol, gan nad oes tystiolaeth gryfach na llais unigolion yn eu cyfnod. Gwerthfawrogais onestrwydd y cyfraniadau, a'r pwyslais ar werth gweddi. Sylweddolaf heddiw wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd i sawl ffrwd ddeillio o'r fendith a welais ar gerdded yn y Bala yn nyddiau fy mhlentyndod. Un ffrwd oedd y cyfle a roddwyd i ferched i gael mwy o lais drwy gyfrwng *Y Cylchgrawn Efengylaidd*. Ffrwd arall oedd y mudiad y daeth Sylwen Lloyd Davies yn Llywydd ac yn Llywydd Anrhydeddus iddo, sef Merched y Wawr. Diolch am gyfraniad arbennig pob un o'r gwragedd hyn'.

Dywedodd Dr John Aaron: 'Yn ystod diwedd pedwardegau'r ganrif ddiwethaf a thrwy'r pumdegau, bu adfywiad ysbrydol ymhlith degau os nad cannoedd o bobl yng Nghymru, oedolion ifanc gan fwyaf. Trefnasant ymgyrchoedd efengylu yn nhrefi'r gogledd a'r de, gan ddosbarthu copïau o'u cylchgrawn: *Y Cylchgrawn Efengylaidd*. Fe'u gelwid yn 'Bobl y Cylchgrawn'. Galwyd nifer o'u dynion i bregethu'r Efengyl, sefydlwyd Mudiad Efengylaidd Cymru i hybu eu gweithgaredd, a ffurfiwyd Gwasg Efengylaidd Cymru (sef Gwasg Bryntirion yn hwyrach). Ychydig o hanes y gwŷr hyn, arloeswyr a phregethwyr yr adfywiad, a gofnodwyd, a braidd dim o gwbl o hanes gwragedd a merched ifanc y mudiad.

'Mae Gwen Emyr wedi gwneud cymwynas fawr â ni fel Cristnogion Cymraeg, felly, trwy gynnal cyfweliadau â nifer o'r gwragedd mwyaf blaenllaw yn y gwaith gan gofnodi eu tystiolaethau gwahanol a sicrhau bod eu hanes ar gof a chadw. Tanlinellir pwysigrwydd ei chyfraniad wrth ystyried mai un yn unig o'r un ar ddeg a gafodd eu cyf-weld yma sydd erbyn heddiw ar dir y byw. Ei chymhelliad wrth gasglu'r hanesion oedd yr ymwybyddiaeth o'r angen arnom ni, yn ein dyddiau seciwlar, di-gred, i glywed 'lleisiau'r fendith' ac i'n hatgoffa o barodrwydd Duw i ymweld â'i bobl, i'w hadfywio ac ailegino ei waith yn ein plith. Cawn ein hatgoffa hefyd, fel yn hanes y rhai a wasanaethodd Grist yn y Testament Newydd (Mair, Mair Magdalen, Mair mam Iago, Salome, a'r gweddill), cymaint o waith y deyrnas sydd yn nwylo gwragedd.'

*Braint yw rhannu un o'r portreadau yn y gyfrol, sef y portread o Joan Hughes, Caernarfon, ar dud. 7.*

Cristnogaeth ar Waith
Tudalen 3

'Am hynny, calonogwch eich gilydd' (1 Thesaloniaid 5:11)
Tudalen 4

Portread o Joan Hughes
Tudalen 5

# Prosiect recordio'r Beder Ifengyl

Mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Beibl a Cytûn, yn ymgymryd â chynllun uchelgeisiol a chyffrous i recordio fersiwn sain newydd o'r *Beder Ifengyl* (tafodiaith sir Benfro). Bydd y recordiad ar gael i'w glywed gan gynulleidfaoedd ehangach, gan uno traddodiad, technoleg a thalent Cymreig mewn un gwaith trawsnewidiol.

Mae'r recordio'n digwydd yn stiwdio Llyfrau Llafar Cymru, cartref i nifer o brosiectau sain Cymraeg nodedig dros y degawdau. Yno, mae'r gwaith technegol dan ofal y peiriannydd dawnus Fabio Lewis, sy'n wreiddiol o Batagonia ac sydd bellach yn gyfarwydd a chlywed tafodiaith y 'wes, wes' ar lafar!

Mae'r prosiect yn cael ei oruchwylio gan y Parchg Geraint Morse, sy'n sicrhau bod y gwaith yn aros yn driw i ysbryd a chywirdeb y testun Beiblaidd. Hyd yma, mae recordiadau wedi'u cwblhau gan y Parchg Sian Elin Thomas ac Awen


Sian Elin Thomas


Geraint Morse

Evans, gyda'r ddwy'n cyfaddef ei bod hi'n her ond eto'n hwyliog cael recordio'r penodau. Sail y prosiect yw testun y diweddar Lyn Lewis Dafis, offeiriad ac un o feibion Mynachlog-ddu. Mae ei gyfieithiad ar gael ar y we eisoes, ond dyma'r tro cyntaf iddo gael ei recordio ar lafar.

Disgwylir lansio'r prosiect gorffenedig yn Eisteddfod y Garreg Las yn Sir Benfro yn ystod yr haf. Bydd hwn yn gyfle arbennig i gyflwyno'r gwaith i'r cyhoedd ac yn gyfle i glywed y recordiadau am y tro cyntaf. Mae cyfarfod arbennig wedi ei drefnu ar ddydd Gwener yr Eisteddfod am 5.30, a hynny ym Mhabell y Cymdeithasau, lle bydd cyfle yn ogystal i ddiolch am fywyd y diweddar Lyn Lewis Dafis.

Yn fuan wedyn bydd y recordiad o'r *Beder Ifengyl* ar gael yn llawn ar Ap Beibl i bawb sydd am wrando.

# Mudiad Chwiorydd Undeb Bedyddwyr Cymru

## Gwahoddiadau agored

**Cyfraniadau i'r *Cwlwm***

Mae Pwyllgor Gwaith Mudiad y Chwiorydd yn chwilio am bobl a fyddai'n barod i ysgrifennu erthygl i rifyn Mai 2026 o *Cwlwm*.

Oes 'na ddigwyddiadau cyffrous yn digwydd yn eich eglwys/ardal chi? Byddem yn falch o ddarllen amdanynt yn y *Cwlwm*. Gallent fod yn ysgogiad i eraill!

Oes gennych chi rysáit sy'n ffefryn mawr gennych – beth am ei rhannu?

Ydych chi'n rhywun y mae'r awen yn dod heibio iddi bob hyn a hyn? Byddai cerdd fach yn hyfryd i'w chael.

Efallai fod rhai o'ch cyd-aelodau yn rhai da am ysgrifennu. Plis, a wnewch chi rannu'r neges hon gyda hwy neu ofyn iddyn nhw gyfrannu?

Mae pawb yn edrych ymlaen at gael darllen *Cwlwm*, ac edrychaf innau ymlaen at dderbyn cyfraniadau oddi wrthych chi.

Gyrrwch eich cyfraniad i Bonni Davies, Penlanwynt, Pontfaen, Abergwaun, SA65 9TU, neu drwy e-bost at: bonniletitia@gmail.com

Byddem yn gwerthfawrogi eu derbyn cyn gynted ag y bo modd, ond man pellaf cyn 30 Ebrill.

**Cyngerdd y Llywydd**

Mae Gret, llywydd cyfredol Mudiad y Chwiorydd, yn garedig iawn wedi trefnu Noson o Adloniant yng Nghapel Mair, Aberteifi, ar 1 Mai 2026 er mwyn codi arian tuag at Glyn Nest. Yn cyflwyno'r eitemau fydd ei mab Iestyn, a fydd yn rhoi datganiad ar yr organ; Côr Bro Nest; a'r Parchg Aled Maskell. Gofynnaf yn garedig i chi rannu'r newyddion am y digwyddiad yn eich eglwys a'r ardal chi.

*Bonni Davies*

**Capel Mair**

**Aberteifi/Cardigan SA43 1DU**

**6.30, 1 Mai/May 2026**

**Iestyn Evans**

Datganiad Organ/Organ Recital



**Côr Merched Bro Nest**

**Parchedig/Reverend Wyn Maskell**

**Gret Evans**
Llywydd Mudiad Chwiorydd Bedyddwyr Cymru
President Women's Section of the Baptist Union of Wales

**Parchedig/Reverend Irfon Roberts**
Cadeirydd/Chairman Cartref Gofal Glyn Nest

Tocyn/Tickets £10.00 wrth y drws

Bydd pob arian a dderbynnir yn mynd i Gartref Gofal Glyn Nest
All proceeds to Glyn Nest Residential Home

# Cristnogaeth ar Waith

Gwelais lun trawiadol yn y papur o'r Arlywydd Trump yn gweddïo. Neu, a bod yn fanwl gywir, yn cydweddïo gyda tua dwsin o weinidogion eglwysi Efengylaidd America yn y Tŷ Gwyn. Roedd ei lygaid ar gau, golwg dangnefeddus ar ei wyneb, yn dal dwylo dau weinidog o boptu tra oedd y lleill fel pe baent yn ei fendithio.

Wn i ddim beth oedd testun y weddi neu'r gweddïau wrth i America ac Israel fomio Iran yn llwch a chwythu'r Aiatola yn chwilfriw. Ond mae'n dda gwybod bod gwleidydd mwyaf dylanwadol y byd yn Gristion pybyr. Diau ei fod wedi darllen pennod 6 o Efengyl Mathew rywdro – ond heb ei chofio:

> "A pheidiwch â gweddïo fel y rhai sy'n gwneud sioe o'u crefydd. Maen nhw wrth eu bodd pan mae pobl yn edrych arnyn nhw … Pan fyddi di'n gweddïo, dos i ystafell o'r golwg, cau y drws a gweddïo ar dy Dad sydd yno gyda ti … Wedyn bydd dy Dad, sy'n gweld pob cyfrinach, yn rhoi dy wobr i ti. Dyma sut dylech weddïo: Ein Tad … Dŷn ni eisiau i ti ddod i deyrnasu ac i'r cwbl sy'n dda yn dy olwg di ddigwydd yma ar y ddaear fel mae'n digwydd yn y nefoedd."

Yng nghylch yr Arlywydd mae criw da o Gristnogion eraill: J. D. Vance, er enghraifft, a roddodd y comedian o Iwcráin, yr Arlywydd Zelenskyy, yn ei le mor gelfydd. Fel 'na mae trin pobol. A Christion mwy ymosodol fyth yw Pete Hegseth, pennaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn gynt, a ailenwyd yn Weinyddiaeth Ryfel. Mae ganddo groes Jerwsalem fel tatŵ ar ei frest, mae'n debyg, sef clwstwr o bum croes sy'n cael eu cysylltu â chyfnod y Croesgadau. Mae'n edmygydd mawr o'r Croesgadau. Wrth y croesau mae tatŵ arall o gleddyf a'r geiriau Lladin, *Deus Vult*, sef Duw a'i myn. Yn wahanol i'w fòs mae Mr Hegseth yn gapelwr cyson ac yn edmygydd o'r Pastor Douglas Williams, sydd â syniadau digon tebyg i Fwslemiaid ffwndamentalaidd am le'r fenyw mewn priodas a chymdeithas. Dylent gael sgwrs rywdro.

Disgrifiodd Hegseth yr ymosodiadau ar Iran fel, "Death and destruction from the sky all day long … America is winning – decisively, devastatingly and without mercy." Mae'n rhaid gen i fod Mathew wedi camglywed neu gamddehongli'r Bregeth ar y Mynydd. Neu, tybed a yw Mr Hegseth wedi camddeall? All y ddau ddim bod yn iawn.

"Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy etifeddu'r ddaear.

Gwyn eu byd y rhai trugarog oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.

Gwyn eu byd y tangnefeddwyr oherwydd cânt hwy eu galw'n feibion Duw."

*Alun Ffred*
*Gyda diolch i wefan Cristnogaeth21*

# Cyhoeddi Rhestr Gwylio'r Byd 2026

Mae *Rhestr Gwylio'r Byd 2026* gan Open Doors bellach ar gael. Yn y llawlyfr Cymraeg cynhwysfawr hwn ceir manylion y 50 gwlad lle mae dilyn Iesu yn costio fwyaf. Ynddo ceir:

- gwybodaeth fanwl a phwyntiau gweddi penodol ar gyfer pob un o'r 50 gwlad
- map Rhestr Gwylio'r Byd a throsolwg byd-eang
- straeon grymus gan Gristnogion sydd wedi cael eu herlid
- lluniau ysbrydoledig a llawer mwy.

I archebu hyd at 30 o gopïau, cliciwch ar y ddolen: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50-welsh/


Am fwy na 30 copi, ffoniwch Open Doors ar 01993 460 015 neu anfonwch e-bost at: jims@opendoorsuk.org.

Os ydych chi wedi defnyddio *Rhestr Gwylio'r Byd* yn y gorffennol ac wedi cael bendith o wneud hynny, wnewch chi gymryd eiliad i anfon adborth at Open Doors: contact@opendoorsuk.org, gan roi 'Welsh World Watch List' yn y blwch pwnc? Bydd yn helpu'r tîm yn Lloegr i sylweddoli faint mae'r adnodd yn cael ei werthfawrogi.

Efallai fod teuluoedd yn eich eglwys/capel yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg. Beth am archebu rhai copïau Saesneg hefyd fel y gellir defnyddio'r ddau ochr yn ochr ar gyfer gweddi? Gellir archebu'r copïau Saesneg yma: https://www.opendoorsuk.org/products/product/2026-wwl-top-50/

Pob bendith,

*Jim Stuart*
*Arweinydd Cysylltiadau Eglwysig, Cymru*
*Open Doors y Deyrnas Unedig ac Iwerddon*



# 'Am hynny, calonogwch eich gilydd' (1 Thesaloniaid 5:11)



Rydym yn byw mewn cyfnod sensitif a phwysig yn hanes yr eglwys leol. Fel cynulleidfaoedd, fe wynebwn newidiadau diwylliannol a chwestiynau newydd ynghylch perthyn a ffydd. Mae nifer ohonom yn ymboeni ynglŷn â'r dyfodol; ond oes yna bethau y gallwn ni eu gwneud er ailadeiladu'n rasol gyda'n gilydd a chryfhau yn ein hyder? Oes, meddwn i! Mae croeso ichi anghytuno, wrth gwrs, ond dyma rai awgrymiadau mewn gostyngeiddrwydd. Mae ein gweinidogion (ac arweinyddion) yn parhau i wasanaethu'n ddidwyll a diflino gydag urddas, er eu bod dan bwysau. Da ni, rhoddwn ddiolch iddynt bob cyfle a gawn a pheidio suddo i ddiymadferthedd yn ein cefnogaeth. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn gwerthfawrogi ein pobl dda ac yn dangos hynny â pharch cadarnhaol.

### Ymateb

Fe allem hefyd geisio sicrhau ein bod yn mynegi ein hymateb wrth wrando ar bregethau. 'Sdim byd gwaeth na sefyll mewn pulpud a phawb yn eistedd yng nghefn y capel a neb yn ymateb! Os bydd y pregethwr yn defnyddio'r dechneg o geisio codi gwên wrth wneud pwynt diwinyddol o bwys, siawns nad yw bod mewn capel yn stopio hynny rhag digwydd? Os bydd pregethwr yn holi cwestiwn, mae rhyddid gennym i ateb yn ddi-ofn! Nid ceisio ein dal allan y mae, ond ennyn ymateb. Ac os bydd pregeth wedi bod yn fendithiol, rwy'n siŵr bod rhannu hynny'n fendithiol i'r negesydd. Porthwn, adborthwn, a chyfrannu at yr ymdeimlad o gymdeithas yr holl saint.

### Mynychu

Cefnogwn y gweithgareddau sydd yn digwydd yn ein cylchoedd ehangach hefyd. Trist o beth yw cael siaradwr gwadd o safon yn ymdrin â phwnc amserol a dim llawer wedi dod yno. Trist hefyd yw diffyg cefnogaeth i bwyllgorau gwaith a thrafodaethau er hyrwyddo ein tystiolaeth. Mae troi lan yn golygu cymaint. Pwy a ŵyr na chawn dderbyn rhywbeth llesol o wneud hynny? Maddeuwch hyfdra'r ymadrodd, ond ym myd y theatr fe ddywedir bod angen 'penolau ar y seddi'! A dyna yw eglwys – pobl wedi dod i ymgyfranogi a chyfrannu gyda'i gilydd. Fe allwn gael y dechnoleg ddiweddaraf a'r adeilad harddaf ac amlbwrpas, ond heb y bobl, nid yw ddim! Ac mae'n iawn mynychu hyd yn oed os nad oes awydd arnom. Efallai, wedi'r cwbl, mai'r mynychu ddaw â'r moddion gras yn ôl inni fel cyd-Gristnogion.

### Mentro

Mae hanes yn ein hatgoffa fod cyfnodau heriol yn aml wedi troi'n adfywiad. Mae Duw dro ar ôl tro wedi atgyfnerthu ei bobl nid trwy ddileu unrhyw anhawster (yn anffodus weithiau i ni), ond trwy ddyfnhau ffyddlondeb. Os ydym am feithrin hyder – o fewn ein cynulleidfaoedd ac yn ein cymunedau – nid hunanfeirniadaeth chwaith yw'r ffordd ymlaen. Gostyngeiddrwydd a chariad dyfalbarhaus sydd eu hangen. Gallwn gydnabod bod angen rhai newidiadau, heb ofni'r methiant posibl yn eu sgil; oherwydd y parodrwydd hwnnw i dyfu sy'n adlewyrchu calon yr Efengyl. Aeddfedrwydd yw'r gallu i fentro'n hyderus fel corff o bobl sy'n dymuno lledaenu a rhwydweithio cariad Crist.

### Cymdeithasu

Y tu hwnt i oedfaon y Sul, mae pobl yn chwilio am gyfleon i gymdeithasu'n gynnes drwy'r eglwys ac i gydweddïo a myfyrio ar y Gair mewn ffyrdd newydd. Gellir meithrin grwpiau bach a system fentora rhwng y rhai hŷn a'r rhai iau sy'n cefnogi cydaddoli. Mae'n hollbwysig ceisio datblygu ymdeimlad o deulu. Pan fo pobl o wahanol oedrannau'n dysgu oddi wrth ei gilydd, daw'r eglwys leol yn fyw yn ei hundod yng Nghrist. Mae modd inni ddarganfod ffyrdd amgen a chyffrous o addoli Duw, gan arddel ein traddodiadau gorau yn ogystal. Drwy fod yn agored i arweiniad yr Ysbryd Glân, gallwn ymroi i ddarparu cyfleon lle mae holi a thrafod yn cael eu croesawu yn ein mysg. Da o beth fyddai cynnig mynd i'r afael â brwydrau bywyd go iawn megis gorbryder, pwysau cymdeithasol, galar, unigrwydd a.y.b. heb wahaniaethu na chreu ffiniau.

Yn olaf, caiff eglwys hyder pan fydd yn bodoli i gyhoeddi diolchgarwch am y cymod â Duw a chymydog. Pan fo gras, maddeuant, a gobaith yng Nghrist yn aros yn ganolog – dyna pryd y cawn brofi'r angor arloesol yn ein cynnal. A 'sdim rhaid i bethau fod yn berffaith i fentro! Gydag ymrwymiad ysbrydol, cysylltu real a thosturiol, efallai wedyn y gwelwn ddatblygiad graddol a naturiol. Wedi'r cwbl, cawn ein trawsnewid o'r newydd gan ras bob tro y byddwn yn dyheu ac yn deisyf hynny. Felly mentrwn yn ffyddiog, heb ddigalonni!

*Sian Meinir*
*(O'r Tyst, 4 Mawrth 2026)*

# ‘Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff’ – gwasanaeth a myfyrdod ar gyfer dydd Iau Cablyd neu wrth nesáu at fwrdd y Cymun

**Galwad i Addoli**
Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi.
Y mae’r ARGLWYDD yn agos at bawb sy’n galw arno,
at bawb sy’n galw arno mewn gwirionedd.
Gadewch inni nesáu â chalon gywir,
mewn llawn hyder ffydd,
a’n calonnau wedi eu taenellu’n lân oddi wrth gydwybod ddrwg,
a’n cyrff wedi eu golchi â dŵr glân.

**Emyn**: *Caneuon Ffydd*, 489 – ‘Does neb ond ef, fy Iesu hardd’

**Cyflwyniad**
Onid yw’n rhyfedd sut y gall rhywbeth mor gyfarwydd eich taro o’r newydd, gan fwrw golwg ffres ar ystyr a phrofiad. Digwyddodd hyn i mi mewn gwasanaeth Cymun yn ddiweddar, sy’n fy atgoffa o brofiad un o’r un enw â mi ’slawer dydd:

> Y Sul canlynol y mae [Howell] Harris yn yr eglwys mewn pryd, ac ar derfyn y gwasanaeth â yn ei flaen gyda’r lleill a fwriadent gymuno, gan syrthio ar ei ddeulin gerbron yr allor. Ond wrth gydadrodd â’r gweinidog y gyffes gyffredin: “Yr ym ni yn cydnabod ac yn ymofidio dros ein hamryw bechodau a’n hanwiredd, y rhai, o ddydd i ddydd, yn orthrymaf a wnaethom, ar feddwl, gair, a gweithred, yn erbyn dy Ddwyfol Fawredd, gan anog yn gyfiawnaf dy ddigofaint a’th lid i’n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn edifaru, ac yn ddrwg gan ein calonau dros ein cam-weithredoedd hyn. Eu coffa sydd drwm genym; eu baich sydd anoddefadwy,” saethodd i’w feddwl nad oedd y geiriau yn wir yn eu perthynas ag ef; nad oedd y gradd lleiaf o alar yn ei galon oblegyd ei bechodau, nad oeddynt mewn un modd yn faich ar ei gydwybod, a’i fod yn myned at Fwrdd yr Arglwydd a chelwydd yn ei enau. “Y teimlad hwn,” meddai, “ynghyd a golwg ar fawredd y wledd sanctaidd, a darawodd fy nghalon, fel y bum agos a chodi oddiar fy ngliniau, a sefyll yn ol, heb dderbyn y sacrament.” (*Y Tadau Methodistaidd*, Cyf. 1, t. 73)

Arweiniodd y golwg newydd yma ymhen amser at dröedigaeth Howell Harris wrth iddo fwrw ei hun yn llwyr, drwy ffydd, ar haeddiant Iesu ac nid ei ymdrechion moesol ei hun. Tybed a syrthiodd y cen o’ch llygaid chi wrth nesáu at fwrdd y Cymun rywdro?

**Darlleniad** – Mathew 26:26–30

26 Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu
fara, ac wedi bendithio fe’i torrodd a’i roi
i’r disgyblion, a dywedodd, **“Cymerwch,
bwytewch; hwn yw fy nghorff.”** 27 A
chymerodd gwpan, ac wedi diolch fe’i
rhoddodd iddynt gan ddweud, “Yfwch
ohono, bawb, 28 oherwydd hwn yw fy
ngwaed i, gwaed y cyfamod, a dywelltir
dros lawer er maddeuant pechodau.
29 Rwy’n dweud wrthych nad yfaf o hyn
allan o hwn, ffrwyth y winwydden, hyd y
dydd hwnnw pan yfaf ef yn newydd gyda
chwi yn nheyrnas fy Nhad.” 30 Ac wedi
iddynt ganu emyn aethant allan i Fynydd
yr Olewydd.

**Emyn**: *Caneuon Ffydd*, 541 – ‘O Fab y Dyn, Eneiniog frawd’

“Pa les ymdrechu, f’Arglwydd, hebot ti, a minnau’n ddim?” Yn y dyddiau yn dilyn ei foment o eglurder o flaen Bwrdd yr Arglwydd, dyma oedd casgliad Howell Harris. Fe geisiodd ei sancteiddio’i hun drwy ymdrech i ddiwygio’i fuchedd, ond yn fuan sylweddolodd nad oedd ganddo ddim i’w gynnig.

**Gweddi**: Cyd-ddarllen yn fyfyrgar ‘Craig yr Oesoedd’ (*Caneuon Ffydd*, 542)

Wrth fwrdd y Cymun mae gennym bwyslais cywir ar y cofio, gyda’r elfennau syml yn dwyn aberth Iesu trosom yn fyw i’n presennol. Ond dyma a’m trawodd y tro hyn, a bu raid i mi nodi’r peth i mi gael myfyrio arno, a cheisio’i ddirnad yn llawnach. Cododd y gweinidog y bara a mynegi’r geiriau cyfarwydd, “Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff” – geiriau mor gyfarwydd ac annwyl. Eto, y tro hwn daeth ergyd gyda’r geiriau, fod disgwyl rhywbeth gen i hefyd, nad gwahoddiad ‘take it o’r leave it’ mohono. Na, nid mynegiant goddefol oedd yma, ond clywais am y tro cyntaf y gorchmynnol: “Cymerwch, bwytewch” (a do, edrychais ar y Groeg, a’r modd gorchmynnol – *imperative* – sydd yno ddwywaith).

Peidiwch â’m camgymryd. Aberth Iesu trosom yw popeth, a dyma sylweddolodd Harris. Mae dyfnder gwirionedd y ‘Gorffennwyd’ y tu hwnt i’n gallu i’w amgyffred yn llawn. Newidiodd y cyfan i Harris ar Sul y Pentecost:

> Aeth i’r cymundeb ar y Sulgwyn yn flinderog a thrwmlwythog dan euogrwydd ei bechodau. Eithr darllenasai mewn llyfr, “os byddai i ni fyned i’r sacrament, gan gredu yn syml yn yr Arglwydd Iesu Grist, y byddem yn sicr o dderbyn maddeuant o’n holl bechodau. Ac yn wir felly y bu i mi; cefais brawf eglur trwy yr Yspryd Glân, fod Crist wedi marw drosof fi, a bod fy mhechodau i gyd wedi eu rhoddi arno ef; a’m bod yn awr yn rhydd oddiwrth frawdle cyfiawnder, ac yn fy nghydwybod …”
>
> Dyma Harris yn ddyn newydd ac yn ddyn rhydd. Drylliwyd ei gadwynau yn chwilfriw, dihangodd yntau am byth gyda’i Farnwr. Mewn canlyniad i hyn, llifodd tangnefedd fel yr afon i mewn i’w gydwybod; prin y cyffyrddai ei draed a’r ddaear wrth fyned adref; gallai ddawnsio a neidio, fel y cloffyn mhorth y deml gwedi ei iachau. (*Y Tadau Methodistaidd*, Cyf. 1, t. 74)

Mae grym yng ngeiriau Iesu, sy’n mynnu ymateb a gweithred o ffydd ar ein rhan: ‘Ac wrth iddynt fwyta, cymerodd Iesu fara, ac wedi bendithio fe’i torrodd a’i roi i’r disgyblion, a dywedodd, “Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff.” ’

Ystyriwch am ennyd y mab hynaf yn nameg odidog Iesu am dad a’i ddau fab. Wedi dychwelyd yr afradlon tua thref, nid oedd yr hynaf am ymuno yn y dathlu. Daeth ei dad allan ato a’i annog: ‘ “Fy mhlentyn,” meddai’r tad wrtho, “yr wyt ti bob amser gyda mi, ac y mae’r cwbl sydd gennyf yn eiddo i ti. Yr oedd yn rhaid gwledda a llawenhau, oherwydd yr oedd hwn, dy frawd, wedi marw, a daeth yn fyw; yr oedd ar goll, a chafwyd hyd iddo”.’ (Luc 15:31–2)

Yn bryfoclyd, fe’n gadewir gan Iesu heb wybod a ymatebodd yr hynaf i wahoddiad y tad. Bron y clywaf Iesu’n brathu ei dafod rhag ychwanegu: ‘Cymera, bwytâ’.

Beth tybed fyddai’r gwahaniaeth iddo rhwng mynd i mewn i’r dathlu, cymryd a bwyta, neu aros ar y tu fas heb gyfranogi o’r wledd a’r gymdeithas felys?

Efallai eich bod yn fwy cyfarwydd â’r syniad o wahoddiad i nesáu ac i dderbyn yr elfennau yn y Cymun. Efallai eich bod yn ymwybodol, fel yr oedd Howell Harris yn Nhalgarth, o’r rhybudd i beidio â chyfranogi’n annheilwng. Mae’n sicr bod y cofio yn bwysig gennym. Ond a glywsoch chi’r geiriau ‘cymerwch’ a ‘bwytewch’ gyda’r disgwyliad gan Grist ein bod yn ymateb drwy ffydd gan ymestyn, cymryd ac ymborthi?

**Emyn**: *Caneuon Ffydd*, 633 – ‘Tydi, fu’n rhodio ffordd Emaus’

*Hywel Rhys Edwards*

# Y GRAWYS – WYTHNOS 6

## Grymuso arweinwyr iau




### Darlleniad

*Luc 2:41–52*

### Myfyrdod

Yn ein sgyrsiau ynglŷn â rhaniadau cymdeithasol, mae thema ieuenctid yn amlwg oherwydd pryderon am y ffordd y mae'r rhaniadau hyn yn effeithio ar eu bywydau a'u lles. Bydd ffocws y sgwrs yn wahanol mewn gwahanol leoedd. Mewn rhai eglwysi mae pryder am absenoldeb ieuenctid, ac mewn eraill ceir dilema ynghylch sut orau i ymateb i'w presenoldeb, gan wneud lle i'w harweinyddiaeth, eu gweledigaeth a'u pryderon. Wrth i ni geisio ymgysylltu â'r gymuned ehangach y tu hwnt i'r eglwys, gall rhaniadau rhwng cenedlaethau fod yn rhwystr gwirioneddol i gyfathrebu effeithiol â phobl ifanc.

Mae'r darlleniad heddiw yn ein hysgogi i feddwl am y gwahaniaeth mewn disgwyliadau a all effeithio ar arweinyddiaeth pobl ifanc. Yn aml bydd eglwysi'n meddwl am bobl ifanc yn nhermau'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, yn hytrach na'r rhoddion maen nhw'n dod gyda nhw. Yn 2018 roedd Cyfarfod Rhyng-eglwysig Iwerddon ar y thema 'Mae realiti yn fwy na syniadau? Myfyrio ar y lles cyffredin mewn cymunedau rhanedig' yn cynnwys panel o arweinwyr ifanc o Youth Link, sef project eciwmenaidd i gefnogi pobl ifanc a gweinidogaeth ieuenctid. Rhannodd aelodau'r panel ag arweinwyr eglwys sut oedd tyfu i fyny mewn cymunedau a glwyfwyd gan wrthdaro wedi effeithio ar eu bywydau, gyda'r heriau iechyd meddwl sydd wedi effeithio arnyn nhw yn ogystal â'u teuluoedd a'u ffrindiau, y bywydau a gollwyd i hunanladdiad, i gyffuriau ac i droseddu, a'r diffyg cefnogaeth i'w cadw mewn addysg a chyflogaeth.

Roedd y realiti dyddiol a ddisgrifiwyd ganddynt yn sioc i lawer o arweinwyr yr eglwys. Wrth ysgrifennu ar ôl y digwyddiad, nododd y Cyd-gadeirydd, yr Esgob Brendan Leahy, ei fod wedi'i daro gan y modd y mae'r heriau hyn "yn cael eu chwyddo o dan chwyddwydr di-baid y cyfryngau cymdeithasol". Dywedodd:

> Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, ysbrydolodd yr ieuenctid a gymerodd ran ni â gobaith mawr. Fe wnaeth y gonestrwydd a'r gwytnwch a ddangoswyd ganddynt herio ac annog pob un ohonom wrth iddyn nhw wneud ple angerddol dros roi cyfle arall i bob person ifanc sydd wedi gwneud dewisiadau gwael yn y gorffennol. Mae gwers yn hynny i bob un ohonom wrth i ni fyfyrio ar ein gobeithion, a'n methiannau, wrth i ni geisio cynnig arweiniad a gofal bugeiliol mewn cymunedau rhanedig.

### Cwestiynau i fyfyrio arnynt a'u trafod

- Sut ydych chi'n gweld yr Eglwys yn buddsoddi mewn pobl ifanc – sydd efallai wedi cael eu heithrio?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n teimlo bod eich Eglwys yn cydbwyso'r angen am gefnogaeth a grymuso yn ei dull o ymgysylltu â phobl ifanc?
- A oes materion sy'n effeithio ar bobl ifanc rydych chi'n teimlo na allwch eu trafod? Beth allai eich helpu i deimlo'n fwy hyderus am hyn?

### Gweithredu

- Archwiliwch sut mae eglwysi'n cefnogi pobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan drais drwy'r Rhwydwaith Synergy – https://wearesynergy.org.uk. A allai unrhyw un o'r syniadau hyn fod yn berthnasol yn eich cyd-destun chi?
- Archwiliwch yr adnoddau a gynigir gan Roots for Churches i gefnogi cysylltu rhwng cenedlaethau yn yr Eglwys: https://www.rootsontheweb.com/i-am-looking-for/resources-for-intergenerational-church. A allai'r rhain gynnig unrhyw syniadau newydd yn eich cyd-destun chi?
- A oes unrhyw ddigwyddiadau dan arweiniad ieuenctid i feithrin deialog yn eich cyd-destun chi y gallech eu cefnogi neu ymuno â nhw?

### Gweddi

Arglwydd,
Gweddïwn dros arweinwyr iau yn ein cymuned
y byddant yn cael eu grymuso
i ddod â'u doniau a'u talentau,
eu gwybodaeth a'u profiad,
i'r gwaith o adeiladu dyfodol gwell i bawb.
Bydd yn agos at yr holl bobl ifanc hynny
sy'n cael trafferth gyda materion hunaniaeth a pherthyn
yng nghanol pwysau a all deimlo'n ddi-baid.
Boed i'r Eglwys fod yn hael
yn ei hestyn allan a'i hymwneud â phobl ifanc
er budd pawb. Amen.

*S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 29 Mawrth, am 6:45yh – Sul y Blodau**
Rhodri Gomer sy'n dathlu Sul y Blodau yng ngerddi hardd Aberglasne yn Nyffryn Tywi. Cawn gyfle i fwynhau blodau cynta'r gwanwyn a chwrdd â'r gwerthwr blodau Lowri Johnston o Gaerfyrddin, sydd wedi agor pennod newydd yn ei bywyd personol a phroffesiynol ar ôl goresgyn heriau a threialon. Ar ddechrau'r Wythnos Fawr sy'n arwain at y Pasg, byddwn yn edrych ymlaen at binacl y flwyddyn Gristnogol. A chawn fwynhau perfformiad disglair gan Gôr Merched Plastaf.

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 29 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Bryn Williams

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 29 Mawrth, am 12:00yp – Y Grawys o Gaernarfon – Sul y Blodau**
Oedfa dan arweiniad Dylan Williams

# Portread o Joan Hughes



***Roedd Joan Hughes yn cynorthwyo yn swyddfa Mudiad Efengylaidd Cymru yn y gogledd, ac yn ddiacones ac Ysgrifennydd Caersalem, capel y Bedyddwyr, Caernarfon. Bu'n gweithio yn y Gwasanaeth Sifil cyn ymddeol. Bu farw yn 2020.*** **(Dyddiad y cyfweliad: Hydref 2004)**

*Beth am ddechrau gyda'r hanes cynnar?*

Fe'm ganwyd yn Nhrefor, Caernarfon [wrth odre'r Eifl], ond symudodd fy nhad i weithio yn chwarel Llithfaen pan oeddwn yn bedair oed. Daeth marwolaeth yn real, ac yn naturiol imi ar y pryd, yn ifanc iawn. Y rheswm am hyn oedd imi gael fy nysgu, fel y rhan fwyaf o blant yr adeg honno, i ddweud Gweddi'r Arglwydd yn y bore a'r pennill hwn cyn mynd i'r gwely:

Rhof fy mhen i lawr i gysgu,
Rhof fy hun i'r Arglwydd Iesu;
Os bydda' i farw cyn y bore,
Iesu, cymer f'enaid inne.

Argraffwyd yn berffaith glir ar fy nghalon mai Mam oedd yn fy ngalw yn y bore ond mai Duw oedd yn fy neffro. Os na fyddwn yn cael fy neffro, byddwn efo Iesu Grist.

Amgylchiad arall sy'n fyw yn fy nghof yw marwolaeth fy nhaid pan oeddwn yn saith oed. Gof yn y Dolydd, ger y Groeslon, oedd o a byddai'n arfer gwneud ceiniog imi ar yr eingion! Rwy'n cofio mynd efo Mam i'w weld pan oedd yn wael iawn. Sefais ar flaenau fy nhraed i geisio cyffwrdd ei dalcen, a'r penbleth yn fy nghalon oedd nid colli'r ceiniogau ond beth fedrwn ddweud oedd yn ddigon pwysig cyn iddo gyfarfod ag Iesu Grist. Wrth gwrs, yr hyn a ddaeth allan oedd lwmp o hunanoldeb: 'Deudwch mod i yma!' Erbyn imi gyrraedd Llithfaen yn ôl, roedd neges wedi dod i'r Llythyrdy ei fod wedi marw.

*Pa yrfa wnaethoch chi ei dewis, a beth barodd ichi ddilyn y trywydd hwnnw?*

Methiant ac amgylchiadau. Deall bod fy nhad yn wael a methu cyrraedd y safon angenrheidiol yn y CWB (Central Welsh Board), yn cyfateb i TGAU, Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd heddiw, mae'n debyg. Er i'r prifathro fod yn hynod garedig a cheisio fy mherswadio i ailgynnig rhai pynciau, ni welwn fy ffordd yn glir. Dechreuais weithio fel teipydd llaw-fer gyda'r Pwyllgor Amaeth ym Mai 1944, a bu farw fy nhad dair wythnos yn ddiweddarach. Sefyll Arholiad y Gwasanaeth Sifil yn 1948, o dan y Weinyddiaeth Amaeth erbyn hynny. Penderfynodd y Weinyddiaeth ddechrau system o *typing pools* trwy'r wlad yn 1950, a gofynnwyd i mi geisio am y swydd o gychwyn ac arolygu un yng Nghaernarfon.

*Beth roddodd y boddhad mwyaf i chi yn eich gwaith?*

Yn gyntaf, y ffaith bod gennyf waith. Credaf fod cael gwaith, a chael iechyd i weithio, yn fraint. Y peth mwyaf o bell ffordd oedd gallu pwyso ar yr Arglwydd. Fel y crybwyllais, dechreuais ar swydd newydd yn 1950 ond ni fuaswn byth wedi medru ei chyflawni oni bai i mi gael profiad o'r Arglwydd Iesu Grist yn Hydref 1949. Nid oedd yn swydd bwysig o gwbl nac yn gofyn am gymwysterau academaidd. Ond ambell waith ni allech eistedd ar y ffens, a dyna fuaswn yn ei wneud yn naturiol. Weithiau, er mwyn cyfiawnder, byddai'n rhaid cymryd un ochr yn erbyn y llall. Gallai hynny achosi drwgdeimlad ond roedd Duw yn goruwchlywodraethu. Unwaith neu ddwy, teimlwn fod yn rhaid anghytuno efo'r Undeb, er fy mod yn aelod, ond cefais barch ganddynt bob amser. Nid oes gennyf ond lle i ddiolch am amynedd Duw i'm dysgu, trwy ganiatáu imi wneud camgymeriad sawl tro, ac am ei ffyddlondeb a'i gynhaliaeth.

*Pryd wnaethoch chi ddechrau cymryd crefydd o ddifri?*

Roedd Iesu Grist yn real imi yn gynnar iawn, fel yr oedd i nifer o'm cenhedlaeth i. Yn wyth oed dechreuais fynd ar wyliau i dŷ Nain, i gadw cwmni iddi. Roedd wedi cael profiad yn Niwygiad 1904–05, a byddwn yn mynd gyda hi i'r capel a chodi pennau'r bregeth ac ychydig frawddegau, yr un fath â hi. Gofynnodd imi un diwrnod a oeddwn eisiau agor fy nghalon i Iesu Grist, ac rwy'n cofio penlinio wrth ei hochr a hithau'n gweddïo. Ni soniodd ddim am bechod wrthyf.

Yn 1948, mewn gwasanaeth ar ddechrau'r ysgol Sul, darllenwyd y drydedd bennod yn Efengyl Ioan, a daeth geiriau Iesu Grist yn glir ataf fi yn bersonol: 'Na ryfedda ddywedyd ohonof wrthyt, y mae'n rhaid eich geni chwi drachefn.' Edrychais o gwmpas mewn dychryn; roeddwn eisiau rhedeg allan, ond roedd pawb yn eistedd yn dawel. Ar y terfyn euthum i holi sut oeddwn i gael fy ngeni drachefn, ond ni chefais ateb. Bûm am flwyddyn yn y cyflwr yna, a'r pellter rhyngof fi a Duw i'w deimlo'n mynd ymhellach o hyd. Wrth edrych yn ôl, gwelaf mai dyna'r amser y dangosodd Duw imi na allwn fod yn ffrindiau efo Iesu Grist ac mewn cymod â Duw ar fy nhelerau fy hun. Roedd yn rhaid derbyn ffordd Duw trwy Iesu Grist.

Yn Hydref 1949, mewn Cwrdd Pobl Ifanc, pryd y pregethwyd gan y Parch. Emyr Roberts, gwelais mai pechod oedd yn achosi'r pellter rhyngof a Duw. Siaradais â'r Parch. Elwyn Davies ar ôl y cyfarfod a chael arweiniad i gyffesu i'r Arglwydd fy angen am faddeuant. Wrth gerdded adref oddi wrth y bws, roeddwn yn gwneud hyn ac yn cael gorfoledd bron yr un pryd. Y bore wedyn agorais Feibl (nid oeddwn yn arfer gwneud hyn yr adeg honno) a gweld yr adnod: 'Eithr yr awron yng Nghrist Iesu, chwychwi, y rhai oeddech gynt ymhell, a wnaethpwyd yn agos trwy waed Crist' (Effesiaid 2:13). Fel golau mewn ystafell, daeth geiriau Iesu Grist i'n meddwl: 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist.' Roeddwn wedi bod yn pendroni dros y geiriau yna yn yr ysgol Sul, ond gwelais fod Iesu Grist wedi dioddef yn fy lle y pellter dychrynllyd rhwng sancteiddrwydd Duw a'm pechod i.

*Ar ôl i chi ddod yn Gristion, pa gylchoedd neu gymdeithasau oedd yn gymorth i chi yn eich bywyd fel Cristion?*

Cefais gefnogaeth pob gweinidog y bûm dan ei ofal a chael rhyddid i ddweud gair yn y Seiat neu i gymryd rhan. Anfonais ambell broblem at Emyr Roberts a chael arweiniad doeth bob amser. Bu Celt Hughes, myfyriwr yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor, yn gymorth mawr imi, fel i lawer. Byddwn yn mynd i'w weld i Ysbyty Eryri, Caernarfon, ac yntau'n gaeth i gadair olwyn, heb allu symud llaw na throed. Cofiaf aml i gwrdd gweddi gydag ef ac Elwyn Davies ar y Morfa. Nid oedd Celt yn gallu llefaru i weddïo yn gyhoeddus ond dechreuais ddysgu fel y mae'r Arglwydd yn arwain trwy ei Ysbryd.

Byddwn yn cael bendith wrth fynychu'r Seiat Efengylaidd yng Nghaernarfon ar nos Sadwrn. Am gyfnod bu'r Seiat yn ymweld â Seiadau Pwllheli, Blaenau Ffestiniog (lle roedd Elwyn Davies yn weinidog), neu Borthmadog ar bnawn Sadwrn ryw unwaith y mis. Y Parch. Dennis Jenkins, pan oedd yn weinidog yn Neiniolen, oedd yr olaf i arwain y Seiat yng Nghaernarfon.

*A fuoch chi'n helpu Emily ac Wena Roberts yn Sgubor Goch, yng Nghaernarfon? Beth oedd eich cyfraniad chi?*

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Portread o Joan Hughes

*(parhad o dudalen 7)*

Cofiaf griw ohonom, gyda David Shepherd, yn cynnal cwrdd awyr agored yn ymyl y fan y codwyd y cwt sinc cyntaf yn yr ardal. Yno, yn Noddfa, y dechreuodd y Chwaer Emily Roberts wasanaethu o dan nawdd y Symudiad Ymosodol, yn y pumdegau. Cafwyd adeilad mwy a chorfforwyd yn eglwys yn 1965. Rhoddodd Emily Roberts wasanaeth gwerthfawr. Roedd tua dau gant o blant yn mynychu'r ysgol Sul a bu rhaid ei rhannu yn ddwy.

Roedd ganddi dîm da o'r cychwyn, fel Mr a Mrs Hanks, Ada Roberts, Gwilym Jones a John Pritchard, i gyd o Gaernarfon. Rina Jones (Macdonald erbyn hyn) oedd wrth yr offeryn. Mae gennyf lun o Emily yn anrhegu Rina â chloc ar achlysur ei phriodas. Daeth ei chwaer, Wena Roberts, ati ymhen tipyn i chwarae'r offeryn, ac roedd yn gefn i'w chwaer ymhob ffordd. Byddwn yn mynd yno yn fy nhro i siarad ar nos Sul. Ond yn niwedd y saithdegau, wedi i Wena farw ac i iechyd Emily ddirywio ac iddi ymddiswyddo, gofynnodd Cwrdd Dosbarth Caernarfon am wirfoddolwyr i fynd yno i helpu. Roedd John Pritchard yn parhau'n ffyddlon, a rhai o gapeli'r dref yn chwarae'r offeryn yn eu tro. Tra siaradwn unwaith, gwelais ddau lygad yn pefrio arnaf – bachgen wedi dod â ffured i mewn o dan ei jyrsi! Wn i ddim a oes rhywun wedi cael gwrandäwr mor eiddgar! Gwerthwyd yr adeilad i'r Cyngor Sir yn fuan a newidiwyd y drefn.

*Sut y llwyddoch chi i roi eich sgiliau ysgrifenyddol ar waith yn yr eglwys?*

Bu Miss Mary Richards yn ysgrifennydd effeithiol yng Nghaersalem, Capel y Bedyddwyr, am flynyddoedd, ond pan ballodd ei hiechyd gofynnwyd i mi gymryd drosodd. Nid oes llawer o alw am sgiliau ysgrifenyddol; bod yno i drefnu beth bynnag fydd yn codi yw'r peth pennaf. Mae yna dîm da o chwiorydd o dan lywyddiaeth Arvonia Young.

*Sut y daethoch i helpu gyda gwaith y Mudiad Efengylaidd?*

Wedi ymddeol ers peth amser, bron ddeng mlynedd yn ôl, teimlais ar fy nghalon un bore bod gan Dduw rywbeth imi i'w wneud. Ymhen rhyw ddeuddydd daeth y cylchgrawn *Gorwelion* o Gildwrn, Eglwys Efengylaidd Llangefni, gyda hysbyseb yn gofyn am rywun i helpu yn swyddfa Cildwrn, i olynu Jennifer Jones. Dywedais y buaswn yn gwneud y gwaith yn wirfoddol pe byddai gennyf gar i fynd yno. Wedi holi, canfuwyd y gallwn fynd i Langefni bob dydd gyda rhywun a oedd yn gweithio yng Nghyngor Môn. Rwy'n gallu gwneud y gwaith gartref ers tua chwe blynedd bellach, heb angen mynd i Gildwrn. Swyddfa sydd gan y Mudiad yn y gogledd yw'r swyddfa yng Nghildwrn, a gobeithio bod yr ychydig a wnaf yn lleihau rhywfaint ar faich y gweithwyr prin sydd yn y brif swyddfa ym Mryntirion, Pen-y-bont ar Ogwr.

*Beth yw rhagoriaeth gwyliau fel Gwyliau Tegid ym Mryn-y-groes, y Bala, y gwyliau i Gristnogion hŷn a drefnir gan y Mudiad?*

Dyna'r unig wyliau, ar wahân i'r Gynhadledd flynyddol yn Awst, i rai ohonom. Mae'n rhoi bendith ysbrydol wrth wrando ar y Gair yn cael ei agor gan wahanol weinidogion, a chawn fwynhau cymdeithas gynnes mewn lle hyfryd. Rhaid peidio ag anghofio'r trip a gawn un diwrnod a'r bwyd da bob dydd! Gellir ei gymeradwyo i unrhyw un dros 45 oed.

*Fel un o selogion Cynhadledd Flynyddol y Mudiad, pa fudd a gawsoch chi o'r Gynhadledd eleni a'r blynyddoedd a fu?*

Bob tro trysoraf y negeseuon a gawn o'r Gair a'r undeb ysbrydol. Gwefr arbennig yw gweld cymaint o blant a phobl ifanc, a'u gweld yn dod ymlaen i arwain yn y gwersylloedd ac mewn ffyrdd eraill. Byddaf yn mwynhau eu brwdfrydedd a'u gonestrwydd yn y noson lawen hefyd. Eleni cefais syched o wrando ar anerchiadau'r Parch. Dafydd Morris, Caerfyrddin, am weld mwy o ogoniant yr Arglwydd Iesu Grist, dod i'w adnabod yn well a'i garu'n fwy. Mewn dau air, dod yn berson 'un peth'.

*Beth yw'r help mwyaf i chi yn eich pererindod bob dydd, heddiw yn nhref y Cofi?*

Y gymdeithas sydd yn yr eglwys yng Nghaersalem o dan weinidogaeth y Parch. John Treharne. Mae'r astudiaethau Beiblaidd a'r cwrdd gweddi yn amhrisiadwy ac yn symbyliad i ddarllen y Gair, i weddïo a hefyd i gadw undeb yr Ysbryd. Mae'r ysgol Sul yn fendith hefyd. Erbyn hyn rwyf mewn dosbarth *golden oldies* gydag Arwel Ellis Jones yn athro a'i wraig, Lowri, Kent Morris a Miriam Treharne efo'r plant.

Gobeithio y byddaf yn cael gras i barhau i fanteisio ar y breintiau hyn a dal i sychedu am fod yn berson 'un peth'; ymgolli yn yr Arglwydd Iesu, yn fwy nag yn ei waith hyd yn oed. Fel y byddaf yn gallu dweud – nid 'dwi yma, wele fi' ond 'Wele'r Oen'.

*Gwen Emyr*

(Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn:
*Lleisiau'r Fendith*, Cyhoeddiadau'r Gair)

## Gair o gydymdeimlad

Bu farw'r Parch Phillip de la Haye o'r Bala yn Ysbyty Bronglais yr wythnos diwethaf, wedi treulio'r mis yn glaf yno. Fe fyddai Phillip yn cael ei longyfarch eleni wrth inni nodi trigain mlynedd ei ordeinio yn 1966.

Yng Nghanada y bu dechrau'r daith iddo, a symudodd y teulu i amryw fannau nes iddo ddod yn rhan o'r Ysgol Sul Gymraeg yn Hoole, Caer, pan oedd yn gweithio yno a phrofi galwad i'r weinidogaeth. Dechreuodd y weinidogaeth honno yn Llandegla a Choedpoeth yn hen henaduriaeth Dwyrain Dinbych. Tra oedd yno priododd Mary, oedd yn dysgu yng Nghaergwrle ar y pryd. Bu'r ddau yn weithgar iawn, ac mae cof da gan yr ieuenctid yr adeg honno o'r modd y byddai Phillip a Mary yn agor eu cartref iddyn nhw ac yn buddsoddi yn eu bywydau ysbrydol. Wedi cryn amser, symudodd y ddau i'r Drenewydd, gyda Phillip yn gofalu am eglwysi Presbyteraidd Cymraeg a Saesneg y dref. Ymddeolodd y ddau i'r Bala gan barhau eu cefnogaeth i bob mudiad a ddyrchafai enw'r Arglwydd Iesu. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mary yn y cartref yn Nhywyn ac â'i berthnasau eraill a'r rhai a dderbyniodd o'i ofal a'i fugeiliaeth dyner.

* * *

Rydym hefyd yn cydymdeimlo â Nia a'r Parch. Bryn Williams, Pwllheli, a'r teulu i gyd wedi i Nia golli ei mam, sef Alwena Davies o Gricieth. Buont yn fawr eu gofal ohoni a bu farw'n heddychlon yng Nghartref Bryn Meddyg ar 12 Mawrth yn 96 oed.

Bydded i'r Arglwydd eu nerthu a'u cynnal i gyd â'i ddeheulaw (Eseia 40:10).

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru